# Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016

**2016 dccc 6**

**RHAN 5**

COSBAU

**PENNOD 2**

COSBAU AM FETHU Â DYCHWELYD FFURFLENNI NEU DALU TRETH **[**[F1]NEU SYMIAU SY'N DALADWY MEWN CYSYLLTIAD Â CHREDYDAU TRETH**]**

*Cosb am fethu â dychwelyd ffurflen dreth*

**120 Cosb am fethu â dychwelyd ffurflen dreth o fewn 12 mis wedi'r dyddiad ffeilio**

(1) Mae person **[**[F1]y mae'n ofynnol iddo ddychwelyd ffurflen dreth**]** yn agored i gosb os yw methiant y person i ddychwelyd ffurflen dreth yn parhau ar ôl diwedd y cyfnod o 12 mis sy'n dechrau â'r diwrnod ar ôl y dyddiad ffeilio.

(2) Pan fo'r person, drwy fethu â dychwelyd y ffurflen dreth, yn atal yn fwriadol wybodaeth a fyddai'n galluogi neu'n cynorthwyo ACC i asesu rhwymedigaeth y person i dreth ddatganoledig, y gosb **[**[F2]yw—

(a) £300, neu

(b) swm uwch, heb fod yn fwy na 95% o'r swm o dreth ddatganoledig y byddai'r person wedi bod yn agored i'w dalu pe byddai'r ffurflen dreth wedi ei dychwelyd.**]**

(3) Mewn unrhyw achos nad yw'n dod o fewn is-adran (2), y gosb yw'r mwyaf o'r canlynol—

(a) 5% o swm y dreth ddatganoledig y byddai'r person wedi bod yn agored i'w dalu pe byddai'r ffurflen dreth wedi ei dychwelyd, a

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016, Adran 120. (See end of Document for details)*

(b) £300.

**Diwygiadau Testunol**

**F1** Geiriau yn a. 120(1) wedi eu mewnosod (1.4.2018) gan Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 (anaw 1), a. 81(2)(3), **Atod. 23 para. 41(a)**; O.S. 2018/34, ergl. 3

**F2** Geiriau yn a. 120(2) wedi eu hamnewid (1.4.2018) gan Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 (anaw 1), a. 81(2)(3), **Atod. 23 para. 41(b)**; O.S. 2018/34, ergl. 3

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 120 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 194(2)**

**I2** A. 120 mewn grym ar 1.4.2018 gan O.S. 2018/33, **ergl. 3**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016, Adran 120.